

Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni a Gwarchodwyr



Canolfan Iaith Gymraeg
Welsh Language Centre

YSGOLION BRO MORGANNWG • VALE OF GLAMORGAN SCHOOLS

Cyfeiriad

Canolfan Iaith Ysgolion Bro Morgannwg,
Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant,
Amroth Court,
Caldy Close,
Y Barri / Barry,
CF62 9DU

Rhif ffôn

01446 421723

E-bost

OwenE533@Hwbcymru.net

Gwefan

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/CanolfanIaithGymraeg>

Y Staff

Miss Enfys Owen

(Arweinydd ac Athrawes / Leader and Teacher)

Miss Lowri Morris

(Cymhorthydd Dysgu / Learning Support Assistant)

Ein nod

Darparu canolbwynt hapus a diogel i ddysgwyr Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg Bro Morgannwg uno a mwynhau dysgu gyda'i gilydd.

Ein hamcanion

- Datblygu sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm, gyda ffocws penodol ar ddatblygu sgiliau gwranddo a siarad.
- Darparu amgylchedd dysgu cyfoethog ac adnoddau dysgu pwrpasol er mwyn cefnogi'r dysgwr ar hyd ei daith.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth pob dysgwr o ddiwylliant Cymreig a chyfoethogi profiadau teuluoedd o'r iaith a'r diwylliant

Trochi iaith

Defnyddiwn y dull drochi iaith i ddysgu'r iaith Gymraeg i sicrhau bod gan ddysgwyr sy'n hwyr i addysg Gymraeg gymhwysedd digonol i lwyddo a ffynnu yn ddilynol yn eu mam-ysgol. Golygai hynny ein bod yn cyfathrebu yn uniaith Gymraeg yn y Ganolfan Iaith. Mae [Estyn \(2022\)](#) wedi cyhoeddi'n ddiweddar fod Trochi Iaith yn "flaenoriaeth i gefnogi plant sy'n dysgu Cymraeg", a hynny er mwyn galluogi i blant sy'n hwyr i addysg gyfrwng Gymraeg gaffael ar yr iaith fel iaith ychwanegol.

Defnyddiwn ddulliau trochi iaith addysgu amrywiol a hwyliog i ddatblygu iaith, mae'r rhain yn cynnwys paru geirfa â symudiadau corfforol a lluniau, chwarae gemau iaith a chwarae rôl.

Manteision bod yn ddwyieithog

Mae nifer fawr o fanteision o fod yn ddwyieithog, gallwch ddarllen am rhai ohonynt ar wefan Cyngor Bro Morgannwg, [manteision bod yn ddwyieithog](#).

Paratoi eich plentyn i ddysgu Cymraeg

Rydyn yn croesawu i rieni gysylltu â ni er mwyn trefnu i chi a'ch plentyn ymweld â ni yn y Ganolfan cyn iddynt ddechrau.

Ar ddiwedd y llawlyfr hwn ceir rhestr o apiau a gwefannau i chi a'ch plentyn eu defnyddio i'ch cefnogi wrth ddysgu ac ymarfer y Gymraeg.

Hyd cyfnod eich plentyn yn y Ganolfan Iaith

Bydd eich plentyn yn treulio cyfnod o 12 wythnos (ddim yn cynnwys gwyliau ysgol) yn y Ganolfan Iaith, o ddydd Llun i ddydd Iau. Bydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol ble mae wedi'i gofrestru, pob dydd Gwener yn ystod y cyfnod hwn. Bwriad hynny yw gofalu am les eich plentyn wrth sicrhau ei fod yn derbyn cyfle yn dod i adnabod ei gyd-ddysgwyr ac athrawon yn ei ysgol.

Amserlen y dydd

Bydd eich plentyn yn y Ganolfan Iaith rhwng 9 yb a 3 yh.

Sesiwn y Bore	9:00 - 11:40 (amser egwyl 10:15-10:30)
Amser Cinio	11:40 - 12:45
Sesiwn y Prynawn	12:45 - 15:00 (amser egwyl 13:45 - 14:00)

Gwyliau Ysgol

Cyhoeddir dyddiadau blwyddyn ysgol gan Gyngor Bro Morgannwg, gweler: <https://www.valeofglamorgan.gov.uk>

Rhoddir rhybudd priodol o ddyddiau Hyfforddiant Mewn Swydd pan fydd y Ganolfan Iaith ar gau ar gyfer y dysgwyr.

Trefniadau Cludiant

Gallwch gludo eich plentyn eich hunain i'r Ganolfan, neu fanteisio ar wasanaeth tacsï a drefnir gan adran drafnidiaeth y Sir. Gofynnwn yn garedig i chi roi gwybod sut rydych yn bwriadu i'ch plentyn gyrraedd y Ganolfan er mwyn i drefniadau dacsï gael eu gwneud, neu er mwyn trefnu system i ad-dalu eich costau milltired petrol, os yn gymwys.

Trefniadau Cinio

Gall eich plentyn dderbyn cinio ysgol neu mae croeso i'ch plentyn ddod a phecyn bwyd i'r ysgol. Rydyn ni hefyd yn annog eich plentyn i ddod a photel dŵr a ffrwyth gydag ef/hi i'r Ganolfan laith.

Presenoldeb, Prydlondeb a Salwch

Mae presenoldeb cyson a phrydlon yn bwysig iawn yn y Ganolfan laith i sicrhau datblygiad iaith eich plentyn. Os fydd eich plentyn yn sâl ac felly'n absennol o'r Ganolfan laith, gofynnwn yn garedig i chi gysylltu i esbonio'r absenoldeb.

Gwisg

Anogwn y dysgwyr i wisgo gwisg yr ysgol ble maent wedi'u cofrestru i ddod i'r Ganolfan laith.

Cyfathrebu

Byddwn yn cyfathrebu gyda rhieni a gwarchodwyr dros e-bost gan amlaf.

Mae croeso i chi gysylltu gyda staff y Ganolfan laith er mwyn trafod materion dros y ffôn neu wneud apwyntiad i gwrdd â'r staff.

Cysylltiad â'r gymuned Gymreig

Rydym yn awyddus iawn i gefnogi ein dysgwyr a'u teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r Ganolfan Iaith a chreu cysylltiadau gyda'r gymuned Gymreig yn lleol, ar lefel y Sir ac yn Genedlaethol.

Gallwch ddysgu am weithgareddau gan y sefydliadau Cymreig amlycaf ar gyfer eich plentyn a'ch teulu, trwy glicio ar y dolenni isod:








- [Yr Urdd](#)
- [Menter Iaith Bro Morgannwg](#)
- [Dysgu Cymraeg Y Fro](#)

Gwaith Cartref

Byddwn yn gosod gwaith cartref ar gyfer eich plentyn yn achlysurol. Pwrpas hyn yw atgyfnerthu'r gwaith a chefnogi eich plentyn i ymarfer ei sgiliau Cymraeg adref.

Bydd eich plentyn hefyd yn derbyn llyfr a/neu eirfa addas i'w darllen adref pob dydd lau. Gofynnir yn garedig i chi ddarllen gyda'ch plentyn dros y penwythnos a nodi unrhyw sylwadau ar y cofnod darllen a ddarperir, gan ddychwelyd yr holl lyfrau/adnoddau erbyn y dydd Mawrth canlynol.

Adnoddau am ddim i gynorthwyo'ch plentyn

Apiau / Apps	
<p>TRIC A CHLIC</p> 	<p>Rhaglen Ffoneg - Dysgu llythrennau a darllen cynnar (dechreuwch gyda'r llythrennau melyn) / Phonics Programme - Learning letters and early reading (begin with the yellow letters) : https://apps.apple.com</p>
<p>ANTUR CYW</p> 	<p>Ap i blant ddysgu, chwarae a chael hwyl. / An App for children to learn, play and have fun. https://cyw.cymru/</p>
<p>CYW TIWB</p> 	<p>Rhaglenni S4C i'r plant lleiaf. / S4C programmes for young children. : https://cyw.cymru</p>
<p>CANEUON CŴL 1</p> 	<p>Caneuon i blant / Songs for children : https://apps.apple.com</p>
<p>LLYFRAU MAGI ANN</p> 	<p>Darllen yn Gymraeg i blant ifanc / Welsh reading for younger children: https://play.google.com ; https://apps.apple.com</p>
<p>CAMPAU COSMIG</p> 	<p>App i ymarfer ac ehangu sgiliau iaith a rhifedd. An app to practice and expand literacy and numeracy skills. https://apps.apple.com</p>
<p>BETSAN A ROCO YN Y PENTREF</p> 	<p>Cyfle i blant ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn y Gymraeg mewn ffordd hwyliog. / An opportunity to develop their Welsh language skills in a fun and interesting way : https://apps.apple.com</p>
Gwefannau a rhaglenni teledu / Websites and TV programmes	
<p>Gwefan Cyw / Cyw Website</p>	<p>Lle i chwarae gemau, canu a gwrando ar storïau, ar gyfer plant 3 i 6 mlwydd oed. / A place to play games, sing and listen to stories, for children aged between 3 and 6 : https://cyw.cymru/</p>
<p>Gwefan Stwnsh</p>	<p>Rhaglenni teledu Cymraeg, ar gyfer plant 7 i 13 mlwydd oed yn bennaf. / Welsh children's television programming, aimed at children between the ages of 7 and 13): https://www.s4c.cymru/en/stwnsh/</p>